# Fframwaith Adfywio Ardal Ni

CYNLLUN ADFYWIO LLEOL

## ARDAL BANGOR




Ebrill 2025


CYNGOR GWYNEDD

# CYFLWYNIAD

# 01

Yn 2021, cytunodd Bwrdd Adfywio Cyngor Gwynedd i ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd. Bwriad y Fframwaith yw sicrhau bod camau rhagweithiol yn eu lle er mwyn sicrhau cydweithio i wella'r ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Yn rhan o'r Fframwaith hwnnw mae'r sir wedi ei rhannu yn 13 Ardal Adfywio Lleol a chynllun gweithredu wedi ei greu ar gyfer pob un o'r ardaloedd. Dyma'r cynllun gweithredu ar gyfer ardal Bangor.




Ardaloedd Adfywio Lleol
Ardal Bangor, Ardal Dyffryn Ogwen, Ardal Bro Peris, Ardal Caernarfon, Ardal Bro Lleu / Nantlle, Ardal Pen Llŷn, Ardal Pwllheli, Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth, Ardal Bro Ffestiniog, Ardal Bro Ardudwy, Ardal Bala Penllyn, Ardal Dolgellau ac Ardal Tywyn & Bro Dysynni.

Mae 'Adfywio' wedi ei ddiffinio fel ymdrech fwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol neu yn ddiwylliannol. Pwysleisiwyd hefyd bod rôl allweddol i gymunedau adnabod blaenoriaethau lleol; a chyfraniad sefydliadau lleol mewn datblygu cynlluniau gweithredu.

Wedi proses ymgysylltu yn 2022 a gwrando ar farn pobl lleol, mae'r cynllun yn cynnwys gweledigaeth a blaenoriaethau pob cymuned ar gyfer y dyfodol. Gyda gweithio mewn partneriaeth yn greiddiol i'r cynllun y gobaith yw y bydd yn rhoi trywydd clir i gamau all ddod a newid cadarnhaol i gymunedau fydd yn newid bywydau er gwell. Nod y cynllun felly yw bod yn ganllaw i fuddsoddiad yn lleol yn ogystal â dylanwadu ar benderfyniadau polisi ym mhob maes - o iechyd ac addysg i drafnidiaeth a chynllunio.

# FFRAMWAITH ADFYWIO GWYNEDD

02

Mae ein Fframwaith Adfywio ar gyfer Gwynedd yn canolbwyntio ar ymdrechion bwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gan sicrhau mewnbwn a chyfraniad ystod eang o sefydliadau lleol.

## Gweledigaeth

**Datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy sy'n iach, llewyrchus ac egniol gyda'r hyder i fentro, a gyda'r awydd a'r gallu i gyfrannu eu hatebion eu hunain i anghenion lleol ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd**

## Ein Gwerthoedd

**Cynwysoldeb:** byddwn yn cynnwys rhagor o bobl yn ein gwaith
**Ymddiriedaeth**: byddwn yn parchu ac yn ymddiried yn y bobl rydym yn gweithio gyda nhw
**Cydweithio:** byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni
**Meddwl am y System Gyfan :** byddwn yn ystyried effaith lawn ein gweithredoedd
**Awydd am Newid :** byddwn yn herio confensiwn ac yn gweithredu.

## Ein Ffyrdd o Weithio

- Ar sail Asedau: gan adeiladu ar gryfderau'r ardal
- Cydberchnogaeth: gan rannu pŵer a'r cyfrifoldeb am ein dyfodol
- Datblygu Parhaus: byddwn bob amser yn ceisio newidiadau cadarnhaol
- Cymuned yn arwain: byddwn yn gweithredu dan arweiniad y Gymuned



**Llewyrchus** | **Gydnerth** | **Fwy gyfartal** | **Iachach** | **Cymunedau cydlynus** | **Y Gymraeg yn ffynnu** | **Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Byddwn yn gweithredu'r Fframwaith Adfywio yn unol â Phum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



# GWAITH YMGYSYLLTU ARDAL NI

# 03

Bwriad ymgyrch Ardal Ni oedd cynnal sgwrs a thrafod hefo cymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf




Mae ymgynghori ac ymgysylltu gyda phob cymuned wedi bod yn rhan allweddol o lunio'r cynlluniau gweithredu. Roedd tri cham i'r ymgynghori a gynhaliwyd dan faner 'Ardal Ni 2035'

- Cynhaliwyd trafodaeth cychwynnol gyda chynghorau tref a chymuned ynghyd â mudiadau, grwpiau a cynghorwyr lleol gan dderbyn 12 o ymatebion ar syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd.
- Trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i breswylwyr leisio barn ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu eu hardal nhw, yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a pha ddatblygiadau maen nhw am weld yn eu hardal dros y 10 i 15 mlynedd nesaf. Derbyniwyd 344 o ymatebion o ardal Bangor drwy holiadur ar-lein a phapur
- Yn dilyn sesiynau cyhoeddus cynhaliwyd gweithdai gyda sefydliadau i drafod cynlluniau gweithredu gan ganolbwyntio ar y materion a blaenoriaethau oedd wedi eu hadnabod yn lleol.

## Manylion Pellach

Mae gwybodaeth digidol wedi ei osod ar safle we Cyngor Gwynedd :
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dweud-eich-Dweud/Canlyniadau/2022/Canlyniadau-Ardal-Ni/Canlyniadau-Arolwg-Ardal-Ni-2035.aspx

Mae manylion pellach ar gael ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio yn cynnwys

- Asesiadau Ardal (crynodeb ystadegol o'r ardal)
- Adroddiad Trafodaethau Cychwynnol (Cam 1)
- Adroddiad Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus (Cam 2)

Yn unol â'r Gwerthoedd a'r Ffordd o Weithio sydd wedi eu hadnabod, mae'r wybodaeth ac adborth o waith ymgysylltu Ardal Ni wedi ei ddefnyddio wrth adnabod blaenoriaethau sirol a lleol.

# CYNLLUNIAU SIROL A STRATEGOL



## Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Mon




Cafodd canlyniadau Ardal Ni eu ystyried wrth baratoi asesiadau llesiant ardaloedd lleol. Ar gyfer cynllun 2023-28 tri Amcan Llesiant:

- Lliniaru effaith tlodi ar lesiant ein Cymunedau
- Lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc
- Cefnogi ein cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon.

## Cynllun Cyngor Gwynedd 2023 - 2028

Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth




**GWYNEDD YFORY**
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

**GWYNEDD LEWYRCHUS**
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

**GWYNEDD GLYD**
Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau

**GWYNEDD OFALGAR**
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

**GWYNEDD GYMRAEG**
Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

**GWYNEDD WERDD**
Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd


**GWYNEDD EFFEITHLON**
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

## Awdurdod Cynllunio Lleol

Bydd gwybodaeth yn cael ei ystyried wrth ddatblygu gwaith cychwynnol - Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon 2015 - 2026

# ARDAL BANGOR HEDDIW

05





Mae Ardal Bangor wedi ei leoli ar lannau'r Fenai gyda dinas Bangor yn ganolog i'r ardal.  Mae ardal y cynllun hwn yn cynnwys Cyngor Dinas Bangor, a Chynghorau Cymuned Glasinfryn, Pentir a'r Felinheli.

## Crynodeb Ardal Bangor mewn Ffigurau

### Cryfderau

*Yn cymharu yn well a chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **84.2%** - canran sy'n mwynhau iechyd da neu dda iawn, uwch na ffigwr ar Gwynedd o 81.1%
- **82.3** – disgwyliad oes merched, ru'n fath ffigwr Cymreig o 82.3
- **£31,822** – canolrif incwm net aelwydydd Bangor sydd yn uwch na cyfartaledd Gwynedd (£26,452) a Chymru (£26,931)
- **83.1%** - oedolion (25-64 oed) gyda chymhwyster sydd yn uwch na'r ffigwr Cymreig o 80.6%
- **3%** - sef canran o dai sy'n gartrefi gwyliau sydd yn gyson gyda'r ffigwr ar gyfer Cymru (3%) ac yn is na chyfartaledd Gwynedd o 11%

*Ffynhonnell : Adroddiad Ymgynghoriaeth Burum 2021. Noder fod data wedi ei addasu oherwydd gwahaniaethau rhwng ffiniau rhai ardaloedd adfywio a ffiniau ffynonellau data)*

### Gwendidau

*Ddim yn cymharu gystal a chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **77** – disgwyliad oes dynion sydd yn is na cyfartaledd Gwynedd (78.9) a Chymru (78.3)
- **91.4%** o gartrefi gyda mynediad i band llydan, is na'r ffigwr Cymru o 93.1%
- **1.42** (cyfradd fesul 100) bwrgleriaethau gofnodwyd gan yr Heddlu yn uwch na cyfartaledd Gwynedd (sef 0.64) a Chymru (0.98)
- **3.93** (cyfradd fesul 100) ymddygiad gwrthgymdeithasol gofnodwyd gan yr Heddlu sydd yn uwch na ffigwr Gwynedd (2.52) a Chymru (2.55)
- **72%** mewn cyflogaeth, sydd yn is na chyfartaledd Cymru o 75%
- **12.3%** plant yn ordew, ychydig uwch na chyfartaledd Cymru (11.8%)

## Barn Trigolion am yr ardal

### Beth sydd yn dda am yr ardal ?

- Y ffaith fod Prifysgol yn yr ardal (184)
- Treftadaeth a hanes yr ardal a'r ffaith fod Bangor yn ddinas ddiwylliannol ac amrywiol (134)
- Mae'n ardal ddiogel (125)
- Yr iaith Cymraeg a'r diwylliant (106)
- Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol yr ardal (104)
- Trafnidiaeth gyhoeddus dda (105)
- Llwybrau cerdded a beicio o safon (82)
- Adnoddau iechyd yn yr ardal (81)

*(Ffynhonnell : Ymatebion Ardal Ni ardal Bangor. Nifer o ymatebion wedi eu derbyn mewn cromfachau)*


### Beth sydd yn ddim dda am yr ardal ?

- Y Stryd Fawr wedi dirywio a dim digon yn cael ei wneud i'w adfywio (296)
- Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu eu rhentu (166)
- Mae'r economi leol yn fregus a ddim yn creu swyddi da i bobl leol (157)
- Effaith tai myfyrwyr ar ardaloedd preswyl (154)
- Problemau yn ymwneud â pharcio, cyflwr ffyrdd a thraffig mewn sawl rhan o'r ardal (124)
- Bangor wedi colli ei hunaniaeth, diffyg cyd-weithio i gynnal digwyddiadau a chreu bwrlwm cymunedol (121)
- Agweddau negyddol am yr ardal (87)
- Cau clybiau ieuenctid (79)
- Diffyg llwybrau cerdded a beicio o safon ac sy'n ddiogel (76)
- Pryderon yn lleol am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal pobl hŷn yn yr ardal (71)

# ARDAL BANGOR YMHEN 15 MLYNEDD

06

Mae’r rhestr isod yn dangos ymatebion a dderbyniwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus ‘Ardal Ni’. Mae’r materion wedi eu gosod yn ôl y nifer o ymatebion a dderbyniwyd, gyda’r materion a rhestrir gael eu hadnabod gan o leiaf 1 allan o 5 ymateb.



## Prif faterion lleol wedi eu hadnabod yn ystod gwaith Ardal Ni

**Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn ardal Bangor dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?**

| Ranc | Prif Faterion / Blaenoriaethau | Nifer |
|---|---|---|
| 1 | Cynlluniau i ddatblygu ac adfywio’r Stryd Fawr | 260 |
| 2 | Datblygu cynlluniau i gwrdd ag anghenion pobl ifanc yr ardal | 154 |
| 3 | Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau’r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | 150 |
| 4 | Cynlluniau i gadw cymunedau’r ardal yn lan a thaclus | 137 |
| 5 | Cynlluniau i daclo agweddau negyddol a magu balchder yn y ddinas a’r ardal gyfagos | 106 |
| 6 | Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio | 101 |
| 7 | Rhoi mwy o sylw i'r ardaloedd tu hwnt i ganol dinas Bangor | 91 |
| 8 | Cynlluniau i drefnu a hyrwyddo mwy o ddigwyddiadau fel ffeiriau yn lleol | 75 |

# CYNLLUN CREU LLEOEDD BANGOR




Yn 2023 datblygwyd Gynllun Creu Lleoedd i Fangor, fel ran o strategaeth adfywio i'r ddinas. Gosodwyd gweledigaeth ar gyfer sut y gallai Bangor ddatblygu i fod yn lle deniadol, llwyddiannus a chynaliadwy. Drwy ymgysylltu gyda sefydliadau a rhanddeiliad, adnabuwyd gwahanol brosiectau o gwmpas y ddinas bydd yn cyfrannu i wellau chyfleusterau a chynigion Bangor.





***Dolen i'r Cynllun Creu Lleoedd***

***Cod QR i'r Cynllun Creu Lleoedd -***




## Maes Ffocws - Cynlluniau Canol y Ddinas


Yn dilyn adborth ymgynghoriadau, datblygwyd maes ffocws yn y Cynllun Creu Lleoedd i ganol y ddinas. Gwelwir budd i ganolbwyntio ar ardal y stryd fawr er mwyn gwella'r gwasanaethau i'r ddinas gyfan a'r ardal ehangach. Mae'r prosiectau sydd wedi eu nodi yn y cynllun Creu Lleoedd yn adlewyrchu prosiectau dudalen 8 yng Nghynllun Ardal Ni, sef Cynlluniau i ddatblygu ac adfywio y Stryd Fawr.



# CYNLLUN GWEITHREDU



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
|  **B1. Cynlluniau i ddatblygu ac adfywio'r Stryd Fawr** | 1.1 | Cynllun Datblygu Canol Dinas Bangor | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.2 | Cynllun Canolfan Iechyd a Lles Bangor | Bwrdd Iechyd | Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru | Datblygol | Bl. 3-5 |
| | 1.3 | Datblygiad Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ym Mangor | Prifysgol Bangor | Bwrdd Iechyd, Llywodraeth Cymru | Datblygol | Bl 1-3 |
| | 1.4 | Eiddo Stryd Fawr | ADRA | Cyngor Gwynedd, NWH | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.5 | Gwelliannau amgylcheddol Stryd Fawr | Cyngor Dinas Bangor | Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.6 | Ty Cyfle : Canolfan Addysg Oedolion ar y Stryd Fawr | Coleg Llandrillo Menai | Llywodraeth Cymru | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 1.7 | Cynllun Arwyddo canol dinas Bangor | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru, Cyngor Dinas | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.8 | Stones Shout Out *Gwella 5 adeilad yn cynnwys y Gadeirlan* | Esgobaeth Bangor | Amrywiol | Gweithredol | Bl. 3-5 |
| | 1.9 | Darpariaeth wi-fi Canol y Ddinas | Cyngor Gwynedd | Menter Môn | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.10 | Gwelliannau Storiel *Gwelliannau allanol* | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.11 | Cynllun gwella eiddo Stryd Fawr, Bangor | Cyngor Gwynedd | Cyngor Dinas Bangor | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 1.12 | Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Prifysgol Bangor | Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a DU | Gweithredol | Bl 1-5 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B2. Datblygu cynlluniau i gwrdd ag anghenion pobl ifanc yr ardal** | 2.1 | Datblygiad Y Nyth | Cwmni Frân Wen | Cyngor Celfyddydau, Llywodraeth Cymru; Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 2.2 | Showzone *Meithrin sgiliau perfformio* | Showzone | MaesNI | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 2.3 | Ysgol Ein Harglwyddes *Symud yr ysgol i hen safle Ysgol Glanadda* | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 2.4 | Gwelliannau i barciau chwarae Bangor | Cyngor Dinas Bangor | Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl.1-2 |
| | 2.5 | Clwb Ieuenctid Maesgeirchen | Cyngor Dinas Bangor | Cyngor Gwynedd; MaesNi | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 2.6 | Clwb Ieuenctid Coed Mawr | Cyngor Dinas Bangor | Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 2.7 | Ysgol Hirael *Cynllun £3 miliwn i wella ac uwchraddio* | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 2.8 | Cynllun ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu plant a phobl ifanc (Cynllun Sirol) | Cyngor Gwynedd | Asiantaethau | Datblygol | Bl 1-5 |
| **B3. Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati** | 3.1 | Datblygiad Parc Y Coleg | Prifysgol Bangor | Llywodraeth Cymru; Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 3.2 | Parc Chwarae Maestryfan | Grŵp Cymunedol Maestryfan | Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 3.3 | Gwellinnau Gardd Beiblaidd | Esgobaeth Bangor | Cyngor Gwynedd | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 3.4 | Cynllun Atal llifogydd ardal Bae Hirael | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 3.5 | Gwelliannau Gorsaf drenau Bangor | Trafnidiaeth Cymru | Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd | Datblygol | Bl 1-2 |

# CYNLLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B4. Cynlluniau i gadw cymunedau'r ardal yn lan a thaclus** | 4.1 | Cymunedau Glan a Thaclus | Cyngor Gwynedd | Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 4.2 | Diogelwch Stryd | Bangor yn Gyntaf | Busnesau lleol | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 4.3 | Cynllun glanhau gweithiwr stryd Bangor | Cyngor Gwynedd | Cyngor Dinas Bangor | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| **B5. Cynlluniau i daclo agweddau negyddol a magu balchder yn y ddinas a'r ardal gyfagos** | 5.1 | Gweithgareddau amgylcheddol | Wild Elements | | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 5.2 | Casglu Sbwriel *Hwb i wirfoddolwyr allu benthyg offer i gasglu sbwriel* | Wild Elements | | Gweihredol | Bl. 1-2 |
| | 5.3 | MaesNi Cymunedol | MaesNi | BCT; Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl. 3-5 |
| | 5.4 | Ein Dynodiad, Ein Balchder, Ein Dyfodol | Cyngor Gwynedd | Loteri Genedlaethol; Grŵp Llechi Lleol. | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 5.5 | Cynllun Economi Ymweld Gynaliadwy Lleol | Cyngor Gwynedd | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 5.6 | Cynllun Heddlu Gogledd Cymru 'Hel, Dal, Cryfhau' | Heddlu Gogledd Cymru | Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 5.7 | Canolfan Gymunedol Glanadda (gwelliannau i'r adeilad) | Pwyllgor y ganolfan | | Gweithredol | Bl. 1 -2 |
| **B6. Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau** | 6.1 | Teithio llesol *Cynllluniau ar gyfer cysylltu Ysbyty Gwynedd a chanol y ddinas* | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |

# CYNLLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwian | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B7. Rhoi mwy o sylw i'r ardaloedd tu hwnt i ganol dinas Bangor** | 7.1 | Cymunedau Glan a Thaclus | Cyngor Gwynedd | Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 7.2 | Cynllun Adfywio Felinheli | Menter Felinheli | Sefydliadau Lleol | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 7.3 | Gwelliannau ardaloedd lleol | Grwpiau lleol | Cyngor Gwynedd | Rhagbaratoi | Bl 1-5 |
| | 7.4 | Datblygiad Ysgol Fusnes Prifysgol Bangor | Prifysgol Bangor | Grwp Llandrillo Menai | Datblygol | Bl 1-3 |
| **B8. Cynlluniau i drefnu a hyrwyddo mwy o ddigwyddiadau fel ffeiriau yn lleol** | 8.1 | Cefnogi Digwyddiadau (Cynllun Sirol) | Cyngor Gwynedd | | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 8.2 | Bang Bangor | Cwmni Fran Wen | Amrywiol | Datblygol | Bl 1-2 |

# CYDLYNU A MONITRO



Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sy'n cyfrannu at adfywio a gwella Ardal Bangor. Mae hon yn ddogfen fyw, a bydd yn cael ei diweddaru o bryd i'w gilydd.

Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu yn Ardal Bangor, gan ystyried strwythurau a threfniadau cydweithio presennol.

Bydd adroddiad blynyddol byr yn cael ei baratoi gan gynnwys diweddariad ar y cynllun gweithredu a'r holl brosiectau cysylltiedig, ac unrhyw gynnydd yn ystod y cyfnod.




Diolch am gyfraniadau cynrychiolwyr o sefydliadau lleol yn cynnwys :

- Cyngor Dinas Bangor
- Cyngor Cymuned Felinheli
- Cyngor Cymuned Pentir
- Castell Penrhyn
- Tŷ Penrhyn, Bangor
- Partneriaeth Maesgeirchen
- Pontio
- Menter Iaith Bangor
- Bangor yn Gyntaf
- Cwmni'r Frân Wen
- Cymdeithas Ddinesig Bangor
- Partneriaeth Bangor
- "Maes Ni", Maesgeirchen
- Grwp Maestryfan
- Bangor First
- Wild Elements
- Y Gadeirlan
- Maes G ShowZone
- Canolfan Islamaidd Bangor
- Cymdeithas Affricanaidd Gogledd Cymru
- Canolfan Coed Mawr, Bangor
- Cymdeithas Bangor Uchaf
- Bwyd Da Bangor
- Shed, Felinheli
- Clwb Hwylio Felinheli
- Clwb Pel Droed y Felinheli